

MORGAN, HENRY (bu farw 1559) esgob

Enw: Henry Morgan
Dyddiad marw: 1559
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: esgob
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd ym Mhebidiog yn Nyfed, a'i dderbyn i Brifysgol Rhydychen 1515, gan raddio B.C.L. yn 1522 a D.C.L. yn 1525. Yn fuan wedi hynny daeth yn brifathro Neuadd S. Edward yno. Derbyniodd urddau, a daeth yn rheithor Castell Walwyn yn Nyfed; daliodd wedyn swyddi a bywiolaethau yn esgobaethau Lincoln ac Exeter. Penodwyd ef yn esgob Tyddewi gan y frenhines Mari yn 1554, a daliodd y swydd nes i Elizabeth ei dwyn oddi arno yn 1559. Ymneilltuodd i Wolvercote, ger Rhydychen, lle y bu farw 23 Rhagfyr 1559. Claddwyd ef yn Wolvercote.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5726020

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Ellis, T. I., (1953). MORGAN, HENRY (bu farw 1559) esgob. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MORG-HEN-1559>

Copio'r

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government